# SL(6)032 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 3) 2021

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol[1] yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru o wledydd neu diriogaethau nad ydynt yn esempt ynysu am gyfnod penodol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel nad oes rhaid i deithwyr penodol sy'n cyrraedd Cymru o wledydd ar y rhestr oren ynysu. Mae hyn yn cynnwys teithwyr sydd wedi cael cwrs llawn o frechlyn awdurdodedig mewn gwlad berthnasol a theithwyr sydd o dan 18 oed ac yn preswylio fel arfer mewn gwlad berthnasol.

Mae'r rhestr o wledydd perthnasol yn cynnwys:

- Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd,[2]
- Andorra,
- Gwlad yr Iâ,
- Liechtenstein,
- Monaco,
- Norwy,
- San Marino,
- Y Swistir,
- Unol Daleithiau America,
- Gwladwriaeth Dinas y Fatican.

O dan y Rheoliadau hyn, nid yw'n ofynnol ychwaith i deithwyr o'r fath gymryd prawf adwaith cadwynol polymerasau (PCR) ar yr wythfed diwrnod ar ôl cyrraedd Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr[3] fel bod yn rhaid i weithredwyr gwasanaethau teithwyr rhyngwladol sicrhau bod person:

(i) sydd wedi datgan ei fod yn deithiwr cymwys sydd wedi ei frechu o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn meddu ar dystiolaeth i ategu'r datganiad hwnnw;

---

[1] Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574)

[2] Ac eithrio Ffrainc Fetropolitanaidd (ond cafodd Ffrainc Fetropolitanaidd ei chynnwys wedyn yn yr esemptiad o 8 Awst 2021 yn rhinwedd Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 4) 2021 (O.S. 2021/926))

[3] Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021 (O.S. 2021/48)

(ii) sy'n ceisio dibynnu ar esemptiad i ofynion teithio penodol yn meddu ar dystiolaeth ei fod yn gymwys ar gyfer yr esemptiad.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn fod y rheol 21 diwrnod wedi'i thorri (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a nodwn yr esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 30 Gorffennaf 2021.

Dyma a nodir yn y llythyr at y Llywydd:

> *"Mae angen i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted â phosibl i barhau â'r ymagwedd gyffredin ar draws y pedair gwlad mewn perthynas â theithio rhyngwladol, oherwydd y bydd y gyfraith yng Nghymru yn gymwys i deithwyr, ni waeth pa borthladd y daethant drwyddo. O ystyried newid yn y dystiolaeth ynghylch risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyrraeth ar y*

*sail ei bod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.*

*Mae'r Llywodraeth o'r farn nad yw'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. 'r graddau y gallant o bosibl gyffwrdd ag unrhyw hawliau o'r fath, mae'r Llywodraeth o'r farn bod yr ymyrraeth yn fach iawn ac y gellir ei chyfiawnhau fel ymyrraeth angenrheidiol a chymesur i gyflawni nod dilys. Nid yw'r diwygiadau i'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr a wneir gan y Rheoliadau hyn yn newid y ffordd y maent yn cyffwrdd â hawliau unigol."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 13 Medi 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.